Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Abererch
**65 Ger-Y-Bont**
**Abererch**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 6BJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Abererch yn cyfarfod yn neuadd y pentref ac wedi bod ar agor ers tua naw mlynedd. Mae'r lleoliad yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ac yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant pentref Abererch a'r ardal o'i gwmpas. Mae hon yn ardal sy'n Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant. Cymraeg yw'r iaith a siaredir gartref gan bob plentyn. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Ym marn y lleoliad, nid yw'r ardal a wasanaethir ganddo naill ai yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar prynhawn yr wythnos ar gyfer plant tair a phedair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae dau blentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad, gydag un ohonynt yn cael ei ariannu gan y Bartneriaeth.

Cefnogir addysg y plant gan yr arweinydd a chan ddwy ymarferydd rhan-amser. Mae pob un ohonynt wedi'u cymhwyso'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Wedi iddynt orffen eu cyfnod yn y lleoliad, bydd y plant yn parhau gyda'u haddysg yn yr ysgolion cynradd lleol.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2012 a chan Estyn yn Chwefror 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu yn llwyddo i ddarparu ar gyfer anghenion a diddordebau'r holl blant a'u hannog i ddysgu'n effeithiol;
- datblygiad medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi'i gynllunio'n dda;
- ansawdd uchel yr addysgu yn deillio ar ddysgu effeithiol gan bob plentyn;
- defnydd pwrpasol yn cael ei wneud o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio i'r dyfodol;
- darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant; a'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- synnwyr cryf o ddiben yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau;
- awydd cryf yr arweinydd i ymgymryd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol;
- hunan arfarnu yn offeryn allweddol ar gyfer codi safonau a gwella'r ddarpariaeth;
- cymuned ddysgu gref wedi'i sefydlu a diwylliant cadarnhaol o gydweithio;
- ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles plant; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

R1. Datblygu ymhellach rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgor rheoli.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gyd-gynllunio bwriadus, llwydda ymarferwyr i ddarparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu sy'n darparu ar gyfer anghenion a diddordebau'r holl blant ac yn eu hannog i wneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae llawer o'r profiadau hyn yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd yn hyderus ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Trwy weithio dan do ac yn yr ardal leol, caiff plant gyfleoedd cyson i gynyddu eu dealltwriaeth o'r byd maent yn byw ynddo ac o ryfeddodau byd natur. Maent hefyd yn datblygu llawer o fedrau corfforol a chreadigol allweddol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu plant. Wrth weithio ar dasg unigol neu wrth gymryd rhan mewn sesiwn dorfol, anogir plant i wrando'n ofalus ar oedolion ac ar blant eraill ac i rannu eu syniadau a'u profiadau gyda gweddill y grŵp. Mae'r gweithgareddau chwarae rôl rheolaidd a ddarperir, megis derbyn galwadau ffôn yn y filfeddygfa, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygu gallu'r plant i addasu eu hiaith ar gyfer gwahanol bwrpasau. Darperir cyfleoedd dyddiol i blant wrando ar storïau a ddarllenir iddynt gan oedolyn neu i ymdrin â llyfrau'n annibynnol, naill ai i ddilyn stori neu i gywain gwybodaeth o luniau. Mae cyfleoedd buddiol yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd dysgu, dan do a'r tu allan, i blant wneud marciau i bwrpas.

Crëir cyfleoedd da yn yr ardaloedd dysgu ac yn ystod tasgau ffocws i blant ddatblygu a defnyddio eu medrau rhifedd ynghyd â'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r amrediad eang o dasgau ymchwiliol a ddarperir yn annog plant i wneud defnydd pwrpasol o'u medrau meddwl ar gyfer datrys problemau ymarferol.

Rhoddir lle amlwg yn y lleoliad i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o draddodiadau a diwylliant Cymru a hefyd i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'u rôl mewn cymdeithas ac yn y byd.

Trwy ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff, mae'r lleoliad yn darparu'n dda ar gyfer codi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd cynaliadwyedd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd uchel yr addysgu yn gryfder amlwg yn y lleoliad ac o ganlyniad, mae pob plentyn yn dysgu'n effeithiol. Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes o'r Cyfnod Sylfaen ac maent yn disgwyl llawer gan yr holl blant, beth bynnag y bo eu gallu neu eu hoedran. Gwnânt ddefnydd deallus o'r amgylchedd y tu mewn a'r tu allan i gynllunio gweithgareddau cyffrous a phenagored sy'n ysgogi ymglymiad plant i'r dasg dan sylw. Crëir cydbwysedd llwyddiannus rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymarferydd. Mae ymyrraeth amserol staff ynghyd â holi medrus, yn ymestyn dealltwriaeth a medrau plant yn effeithiol iawn ac yn eu herio i ddysgu mwy trostynt eu hunain. Rhoddir pwyslais mawr ar ddysgu trwy chwarae ac ar fwynhad. Caiff ymddygiad plant ei reoli yn gadarnhaol, yn effeithiol ac yn ddiogel.

Mae ymarferwyr yn adnabod plant yn dda ac yn cadw cofnodion manwl o'u cynnydd personol, cymdeithasol ac addysgol trwy gydol eu cyfnod yn y lleoliad. Defnyddia'r ymarferwyr nifer helaeth o ddulliau ar gyfer asesu a mesur cynnydd plant, gan gynnwys arsylwadau dydd-i-ddydd, a gwneir defnydd pwrpasol o'r wybodaeth ar gyfer cynllunio gweithgareddau i'r dyfodol sy'n bodloni anghenion a diddordebau'r plant. Caiff rhieni eu cynnwys yn y prosesau asesu a thrwy dderbyn 'Llyfr Trysor' eu plentyn, cânt wybodaeth hynod fuddiol am ei ddatblygiad ar draws pob maes dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Trwy fwyta byrbrydau iach, hybu hylendid a darparu cyfleoedd dyddiol i blant rannu eu profiadau ac ymwneud ag ymarfer corfforol, mae'r lleoliad yn helpu plant yn dda i gyflawni eu lles emosiynol a chorfforol. Mae trefniadau da iawn ar gyfer sicrhau bod pob plentyn ac oedolyn yn rhydd o unrhyw aflonyddwch corfforol neu emosiynol. Anogir pob plentyn i gymryd rhan lawn ym mywyd y lleoliad ac i ymgymryd â dyletswyddau, megis twtio ar ddiwedd sesiwn neu rannu adnoddau.

Darperir yn dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu chwilfrydedd a synnwyr o ryfeddod plant am y byd y maent yn byw ynddo, ac yn arbennig am fyd natur. Yn ogystal, caiff gwerthoedd megis gonestrwydd a pharch eu hybu'n gryf drwy holl waith y lleoliad. Mae plant yn cael eu hannog i ddangos blaengaredd, i reoli eu hymddygiad a bod yn fodlon i rannu adnoddau gyda phlant eraill.

Pan fo angen cymorth neu gefnogaeth arbenigol ar blentyn neu riant, gŵyr yr arweinydd yn dda gyda phwy i gysylltu. Dengys profiad blaenorol y lleoliad o gydweithio gyda seicolegwyr addysg a ffisiotherapydd bod trefniadau da ar gyfer cefnogi pob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r trefniadau sefydlu da ynghyd â gofal ymarferwyr, yn sicrhau bod plant sy'n newydd yn y lleoliad yn ymgynefino'n ddidrafferth

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Nodweddion amlwg iawn o’r lleoliad yw’r amgylchedd ddysgu hynod o ddiddorol a grëir a’r cyfleoedd cyson a gaiff plant i ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu gan gynnwys TGCh. Maent yn cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd dychmygus o’r ardal leol, ynghyd â’r llain galed ar bwys yr adeilad, i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Caiff adnoddau yn y gymuned leol a’r ysgol gynradd gyfagos eu defnyddio'n bwrpasol iawn i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae’r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Llwydda’r arweinydd i greu ethos yn y lleoliad lle mae plant a staff yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Medda ar weledigaeth glir ar ei gyfer, mae’n gosod disgwyliadau uchel ac yn herio pawb i ymdrechu orau y gallant a chymryd rhan weithredol yn natblygiad y lleoliad. O ganlyniad, mae synnwyr cryf o ddiben sy’n hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Mae staff yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn am ddysgu, ymddygiad a pherthynas.

Mae rheolaeth y lleoliad yn effeithiol gyda sesiynau’n rhedeg yn llyfn a phob aelod staff yn hollol sicr o’u rôl a’u cyfrifoldebau. Mae nodau a pholisïau clir sy’n canolbwyntio ar anghenion plant ac yn cael eu deall a’u gweithredu gan bob ymarferwr. Sefydlwyd cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a phartneriaid eraill ac mae’r arweinydd wedi datblygu system addas ar gyfer gwerthuso ymarferwyr. Mae hyn yn arwain at dargedau cytûn, yn arbennig o ran pennu anghenion datblygiad proffesiynol pellach.

Er holl ymdrechion yr arweinydd, nid oes pwyllgor rheoli llawn yn weithredol yn y lleoliad ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae’r arweinydd wedi gorfod ysgwyddo holl gyfrifoldebau gweinyddol a rheolaethol y lleoliad ar ei phen ei hun.

Mae awydd yr arweinydd i ymgymryd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, megis y Cyfnod Sylfaen ac asesu ar gyfer dysgu, wedi cyfoethogi profiadau dysgu plant yn sylweddol ac wedi arwain at well dysgu ac addysgu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunan arfarnu wedi gwreiddio’n gadarn yn lleoliad ac wedi bod yn offeryn allweddol ar gyfer codi safonau a gwella’r ddarpariaeth. Trwy hunan arfarnu

parhaus, mae ymarferwyr yn gwybod yn dda am gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn dadansoddi sefyllfa gyfredol y lleoliad yn fanwl ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'n gosod strwythur clir ar gyfer rhoi'r gwelliannau ar waith ac yn sicrhau bod trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer arfarnu effaith y gwelliannau ar safonau a darpariaeth.

Mae'r arweinydd yn gwerthfawrogi barn rhieni ac yn darparu cyfleoedd cyson iddynt fynegi barn am y lleoliad. Mae'r lleoliad yn ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i unrhyw sylwadau a wneir gan rieni unigol.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref ac wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol o gydweithio. Caiff aelodau o staff eu cefnogi'n gryf gan ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n sicrhau eu bod yn diweddaru eu gwybodaeth a'u medrau yn rheolaidd ac yn datblygu dulliau newydd o ddysgu ac addysgu. Maent yn rhannu arferion da ac yn barod iawn i ymgymryd â ffyrdd newydd o weithio, megis asesu ar gyfer dysgu.

### Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles plant. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a chymer ymarferwyr gamau gweithredol i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau y mae'r lleoliad yn eu trefnu. Mae'r pecyn gwybodaeth a ddosberthir i rieni newydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn awgrymu ffyrdd y gall rhieni helpu eu plant. Mae gan y lleoliad gysylltiadau agos gyda'r ysgol gynradd ac mae trefniadau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth asesu a rhannu arferion da.

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant. Mae'r cysylltiadau da a ffurfiwyd gyda phobl yn y gymuned megis rhieni, yr heddlu a'r eglwys, wedi arwain at fanteision sylweddol i blant.

### Rheoli adnoddau: Da

Caiff staff ac adnoddau eu rheoli'n fedrus iawn gan yr arweinydd. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol ac mae ganddo drefniadau effeithiol ar gyfer bodloni anghenion datblygu ymarferwyr. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff wybodaeth gyfoes am ddatblygiadau diweddar yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth dda o sefyllfa ariannol y lleoliad ac mae wedi gweithio'n ddiflino i godi arian er mwyn sicrhau parhad y cylch meithrin. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |